Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

**Ysgol Maenofferen**
**Stryd Maenofferen**
**Blaenau Ffestiniog**
**Gwynedd**
**LL41 3UL**

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2011**

**gan**

**Gareth Wyn Roberts**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Ysgol naturiol ddwyieithog, gymunedol o dan ofal Awdurdod Lleol (ALl) Gwynedd yw Ysgol Maenofferen. Mae wedi ei lleoli yng nghanol tref ôl-ddiwydiannol Blaenau Ffestiniog. Mae'r ysgol yn gwasanaethu'r dref a'r ardal o'i chwmpas. Yn ôl nifer o ddangosyddion, mae'r ardal yn un ddi-freintiedig.

Mae 198 o ddisgyblion a phlant rhwng 3 ac 11 oed ar gofrestr yr ysgol ac mae dosbarth ar wahan ar gyfer pob blwyddyn ysgol. Derbynnir disgyblion i'r ysgol yn rhan amser ym Medi yn dilyn eu pen blwydd yn dair oed ac yn llawn amser yn y mis Medi yn dilyn eu pen blwydd yn bedair oed.

Mae gan 27% o'r disgyblion hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim (PYD), sy'n arwyddocaol uwch na'r cyfartaledd sirol a chenedlaethol ac ychydig yn uwch nag yn 2010. Mae 48 (24.2%) o'r disgyblion yn rhai a chanddynt anghenion dysgu ychwanegol (ADY), ac mae tri disgybl yn destun datganiad o anghenion addysgol arbennig (AAA). Mae 98% o'r disgyblion o gefndir ethnig gwyn. Mae saith disgybl neu blentyn yn dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol ond nid ydynt yn derbyn cynhaliaeth ychwanegol. Mae'r ALl yn gofalu am chwe disgybl.

Daw tua 82% o'r disgyblion o gartrefi lle siaredir y Gymraeg ond erbyn hyn mae 92% yn siarad Cymraeg yn rhugl. Dim ond 2% o'r disgyblion sydd ddim yn gallu siarad Cymraeg. Mae pob disgybl yn dilyn cwrs Cymraeg Mamiaith. Defnyddir y Gymraeg yn gyfrwng addysgu hyd at Blwyddyn 2 ac yn dilyn hynny defnyddir y Gymraeg a Saesneg yn gyfryngau addysgu.

Arolygwyd yr ysgol ym mis Mai 2005. Penodwyd y pennaeth presennol i'w swydd ym Medi 2008. Dechreuodd dirprwy bennaeth, newydd i'r ysgol, ar ei swydd yn Ionawr 2011.

Y gyllideb ysgol unigol yn 2010-2011 fesul disgybl ar gyfer Ysgol Maenofferen yw £3247, sy'n cymharu gydag uchafswm o £8442 ac isafswm o £2717 ar gyfer ysgolion cynradd yng Ngwynedd. Hon yw'r ysgol sydd â'r gyllideb fesul disgybl 72ain uchaf o'r 103 ysgol gynradd yng Ngwynedd.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol yr ysgol | Digonol |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r ysgol | Da |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad cyfredol yr ysgol yn ddigonol oherwydd:

- bod mwyafrif y ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol;
- bod presenoldeb yn dda ac mae'r disgyblion yn mwynhau dod i'r ysgol;
- bod y disgyblion yn mwynhau ystod dda o weithgareddau diddorol;
- y darperir cyfle cyfartal i bron bob disgybl mewn ysgol gynhwysol;
- na fu canlyniadau asesiadau diwedd cyfnod allweddol, yn enwedig mewn mathemateg a gwyddoniaeth, cystal â rhai ysgolion tebyg;
- na fu canlyniadau diwedd cyfnod allweddol 1 cystal â rhai cyfnod allweddol 2;
- prin yw'r datblygiad o B1 i B2, ac
- mai digonol yw gweithredu cynlluniau ar gyfer cyflwyno rhai o'r medrau yn y dosbarthiadau.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- bod nifer o weithdrefnau rheolaethol newydd yr ysgol, a'r sustem o dracio a thargedu grwpiau penodol o ddisgyblion, yn dechrau cael effaith ar wella safonau disgyblion;
- bod gweledigaeth y pennaeth eisoes wedi sicrhau gwelliannau arwyddocaol yn yr ysgol;
- bod ymroddiad y staff a'r corff llywodraethol i'r disgyblion a'r ysgol yn ddidwyll;
- bod ansawdd yr addysgu a gallu disgyblion i arfarnu eu gwaith eu hunain yn dda ar y cyfan;
- bod y rhieni a'r llywodraethwyr yn gefnogol iawn i waith yr ysgol, a
- bod ethos bresennol yr ysgol ac ymddygiad y disgyblion yn dda iawn, ac yn ysgogi agweddau cadarnhaol tuag at addysgu a dysgu.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i'r ysgol:-

A1. wella canlyniadau asesiadau diwedd cyfnod allweddol mewn gwyddoniaeth a mathemateg;

A2. roi sylw arbennig i godi'r safonau a gwella'r ddarpariaeth ddiwedd cyfnod allweddol 1;

A3. barhau i wella safonau darllen a rhifedd:

A4. sicrhau bod y disgyblion mwy abl yn cyrraedd eu llawn botensial ym mhob agwedd o'u gwaith;

A5. sicrhau bod y cynlluniau ar gyfer cyflwyno' r medrau allweddol yn cael eu gweithredu'n gyson yn yr holl ddosbarthiadau,

A6. sicrhau bod yr Uwch Dîm Rheoli (UDRh) yn arf effeithiol i gysoni a gwella safonau, a

A7. sicrhau ar fyrder bod yr adeiladau'n addas i gwrdd â disgwyliadau cyfredol o safbwynt diogelwch, a hefyd ar gyfer dulliau addysgu a dysgu cyfoes.

***Beth sy'n digwydd nesaf?***

*Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.*

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Digonol yw ansawdd canlyniadau asesiadau cyrhaeddiad diwedd cyfnod allweddol 1 a chyfnod allweddol 2, pan y cânt eu cymharu gyda chanlyniadau ysgolion sydd yn debyg o ran canran y disgyblion sydd â hawl i PYD neu ysgolion sy'n cael eu gosod yn yr un 'teulu' o ysgolion ar sail nifer o ddangosyddion difreintedd. Y rheswm am hyn yw bod canlyniadau asesiadau diwedd cyfnod allweddol mewn gwyddoniaeth, ac yn arbennig mathemateg, rhwng 2008 a 2010 wedi gosod yr ysgol naill ai yn chwarter isaf neu hanner isaf ysgolion tebyg o safbwynt canran y disgyblion sydd â hawl i PYD. Ar y llaw arall, mae canlyniadau Cymraeg (a Saesneg yng nghyfnod allweddol 2) fel arfer yn well.

Yng nghyfnod allweddol 1, roedd canlyniadau yn y Gymraeg cystal neu well na rhai Cymru rhwng 2008 a 2010; roeddynt yn uwch na chyfartaledd canlyniadau ysgolion yn yr un teulu yn 2010, ond yn is na cyfartaledd y teulu yn 2008 a 2009.

Roedd canlyniadau mathemateg yng nghyfnod allweddol 1 yn is na chyfartaledd Cymru a'r ysgolion yn yr un teulu rhwng 2008 a 2010. Nid oedd canlyniadau mathemateg cystal yn 2010 â'r blynyddoedd blaenorol.

Roedd canlyniadau gwyddoniaeth yng nghyfnod allweddol 1 yn is na rhai'r teulu a Chymru yn 2008, yn sylweddol is yn 2009 ond yn debyg i rai Cymru a'r teulu yn 2010.

Mae ansawdd canlyniadau mathemateg rhwng 2008 a 2010 yn golygu bod canran y disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 sy'n cyrraedd y lefel disgwyliadwy mewn cyfuniad o iaith, mathemateg a gwyddoniaeth wedi aros yn gyson is na chyfartaledd y teulu a Chymru.

Yng nghyfnod allweddol 2, roedd canlyniadau yn well yn 2010 na rhai'r ddwy flynedd flaenorol. Roedd yr ysgol yn hanner isaf ysgolion tebyg o ran PYD ar gyfer canran y disgyblion yn cyrraedd y lefel disgwyliadau mewn cyfuniad o iaith, mathemateg a gwyddoniaeth. Nid oedd canlyniadau asesiadau 2010 yn gosod yr ysgol ymhlith chwarter isaf ysgolion tebyg ar gyfer unrhyw ddangosydd. Bu i ganlyniadau mathemateg wella ond eto roeddynt islaw cyfartaledd Cymru a'r teulu. Roedd canlyniadau gwyddoniaeth yn well na chyfartaledd Cymru a'r teulu yn 2010.

Yng nghyfnod allweddol 2 yn 2009, roedd yr ysgol yn chwarter isaf ysgolion tebyg o safbwynt PYD ar gyfer y Gymraeg, Saesneg, gwyddoniaeth, mathemateg a chanran y disgyblion sy'n cyrraedd y lefel disgwyliedig mewn cyfuniad o iaith, mathemateg a gwyddoniaeth. Roedd canlyniadau'r ysgol yn sylweddol is na chyfartaledd Cymru a'r teulu.

Yng nghyfnod allweddol 2 yn 2008, roedd yr ysgol ymhlith chwarter isaf ysgolion tebyg o safbwynt PYD ar gyfer gwyddoniaeth, mathemateg a chanran y disgyblion yn cyrraedd lefel disgwyliedig yn y cyfuniad o bynciau. Roedd canlyniadau mathemateg a gwyddoniaeth yr ysgol yn is na chyfartaledd Cymru a'r teulu.

Roedd canlyniadau Saesneg yn uwch na rhai Cymru ond yn is na rhai'r teulu. Roedd canlyniadau yn y Gymraeg yn ddigon tebyg i rai Cymru a'r teulu.

Nid oes patrwm cyson yn y gwahaniaeth safonau rhwng bechgyn a merched. Amrywia o bwnc i bwnc ac o flwyddyn i flwyddyn. Nid oes gwahaniaeth amlwg yng nghyflawniad bechgyn a merched yn y dosbarth.

Mae bron bob un o'r disgyblion sydd ag ADY yn gwneud cynnydd da mewn iaith, darllen a rhif er nad yw'r cynnydd yn ddigon, o anghenraid, i newid canrannau'r disgyblion sy'n cyrraedd y safon disgwyliedig gan fod nifer o ddisgyblion gydag ADY yn yr holl ddosbarthiadau.

Mae canran y disgyblion sy'n cyrraedd un lefel yn uwch na'r lefel disgwyliadwy erbyn diwedd cyfnod allweddol yn y Gymraeg yn ddigon tebyg i ysgolion cyfatebol ond nid yw hyn yn wir am y pynciau eraill.

Mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud y cynnydd disgwyliadwy. Mae'r cynnydd hwn yn fwy amlwg yn y Gymraeg a'r Saesneg nag mewn gwyddoniaeth a mathemateg. Mae bron bob disgybl yn y dosbarth derbyn a B1 yn gwneud cynnydd rhagorol ond annigonol yw'r cynnydd yn B2. Mae cynnydd amlwg yn safon gwaith disgyblion B6 ers mis Ionawr.

Mae safonau darllen yn y Gymraeg a'r Saesneg yn anwastad. Mae safonau darllen disgyblion y dosbarth derbyn a blwyddyn 1 yn dda iawn. Mae safonau darllen disgyblion blwyddyn 2 yn dda. Mae llawer o'r disgyblion, gan gynnwys disgyblion B3 i B6, yn darllen ar goedd yn dda. Yn ôl canlyniadau profion darllen, mae lleiafrif y disgyblion yn cyrraedd safonau da ac mae'r mwyafrif yn gwneud cynnydd boddhaol.

Mae safonau ysgrifennu yn y ddwy iaith yn dda. Digonol yw safonau rhifedd. Mae gwaith siâp yn dda. Mae llawer o'r disgyblion, fodd bynnag, yn cael trafferth i gymhwyso mathemateg.

Mae safonau yn y Gymraeg yn dda ac mae safonau llafar yn arbennig o dda.

**Lles: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned hapus, drefnus a moesgar ac mae bron bob un o'r disgyblion yn ymroddgar a brwdfrydig tuag at ei waith. Mae ymddygiad bron bob un o'r disgyblion yn dda iawn yn ystod y gwersi ac yn ystod amserau egwyl. Cynigir cynhaliaeth effeithiol a chynnil i'r unigolion sydd ei angen gan y staff cefnogi sy'n cydweithio'n effeithiol gyda'r athrawon. Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Mae gofal cymuned yr ysgol amdanynt yn dda ac mae medrau cymdeithasol bron bob disgybl o fewn yn ysgol yn dda iawn. Mae ganddynt falchder yn eu hysgol. Mae bron un o'r disgyblion o'r farn fod yr ysgol yn ymateb yn effeithiol pan fydd plentyn yn anhapus. Mae bron pob un yn cyfranogi'n llawn yn eu dysgu gan gyfrannu tuag at y gwaith dan sylw. Mae llawer yn dod yn ddysgwyr mwy annibynnol, gan ddechrau gwneud penderfyniadau drostynt eu hunain. Mae gan y rhan fwyaf o'r disgyblion agweddau cadarnhaol at addysg iechyd a bwyta'n iach. Maent yn hapus yn dod i'r ysgol gan eu bod yn derbyn gofal, cefnogaeth, ac yn y mwyafrif o achosion yn cael eu herio. Mae ffigyrau presenoldeb yr ysgol yn dda.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r athrawon yn darparu ystod dda o brofiadau dysgu diddorol sy'n cwrdd ag anghenion y disgyblion. Cyfoethogir y cwricwlwm gan gysylltiadau gyda diwydiannau a busnesau lleol.

Mae'r cwricwlwm ar gyfer plant y dosbarthiadau Meithrin, Derbyn a blwyddyn un wedi ei gynllunio'n dda. Digonol yw'r cynllunio ar gyfer disgyblion blwyddyn dau, lle mae'r ysgol wedi penderfynu gweithredu gofynion y Cyfnod Sylfaen flwyddyn ynghynt na'r gofyn.

Mae cynlluniau'r athrawon ar gyfer cyfnod allweddol 2 yn cynnwys datblygu cyfathrebu, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh), ond hyd yma, ni lwyddir i'w gweithredu'n gyson yn yr holl wersi. Cydgysylltwyr pwnc unigol sy'n nodi'r cyfleoedd i ddatblygu'r sgiliau allweddol ar draws y cwricwlwm. Heblaw am TGCh a addysgir ar draws y cwricwlwm, nid yw trefniadau cydlynu sgiliau rhifedd a chyfathrebu ar lefel ysgol gyfan wedi eu gwreiddio'n ddigonol. Fel canlyniad, nid ydynt, hyd yn hyn, wedi cyfrannu'n ddigonol at godi safonau rhifedd a iaith bynciol mewn mathemateg a gwyddoniaeth. Mae dylanwad y cynlluniau gwaith ar ddatblygiad medrau meddwl a hunan asesu'r disgyblion yn anwastad o ddosbarth i ddosbarth. Yn y mwyafrif o achosion, mae'n dda.

Caiff yr ardal leol a'i phobl eu defnyddio'n effeithiol i ddarparu gweithgareddau dysgu cyfoethog sy'n galluogi'r disgyblion i ennill gwybodaeth a dealltwriaeth dda o'r amgylchedd a hanes yr ardal.

Cymraeg yw cyfrwng yr addysgu yn y Cyfnod Sylfaen ac yn y rhan fwyaf o'r gwersi yng nghyfnod allweddol 2. Cyflwynir rhai agweddau pynciol trwy gyfrwng y Saesneg yng nghyfnod allweddol 2, gan sicrhau defnydd digonol o'r ddwy iaith fel cyfrwng addysgu. Mae'r sylw a roddir i'r Cwricwlwm Cymreig yn dda.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer codi ymwybyddiaeth y disgyblion o ddatblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn ddigonol. Derbyniodd yr ysgol wobr efydd y cynllun Ysgolion Gwyrdd, ac mae'n dechrau hyrwyddo gweithgareddau megis ailgylchu, arbed ynni a bwyta'n iach, yn llwyddiannus. Nid yw'r dimensiwn byd- eang wedi ei ddatblygu i'r un graddau.

**Addysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgol yn gyffredinol dda. Mae ansawdd yr addysgu yn well na safonau cyflawniad yn y dosbarth ar adegau gan fod codi safonau yn broses dros gyfnod. Yn ogystal, mae'r broses o asesu ar gyfer dysgu yn dechrau cael dylanwad cadarnhaol ar safonau mewn nifer dda o ddosbarthiadau.

Mae'r addysgu'n rhagorol yn y dosbarthiadau Meithrin, Derbyn a blwyddyn un oherwydd bod y tasgau yn hynod o heriol, strwythuredig a diddorol ac maent yn hybu datblygiad ac annibyniaeth y plant yn dda iawn. Yn blwyddyn dau, nid yw'r tasgau'n darparu her digonol i oed a gallu'r disgyblion.

Yng ngweddill yr ysgol, lle mae'r addysgu'n dda, mae gwybodaeth bynciol yr athrawon yn dda ac maent yn cynllunio ystod o weithgareddau diddorol sy'n ysgogi'r disgyblion. Drwy'r holl ysgol, mae cydweithio effeithiol rhwng yr athrawon a'r cynorthwywyr dosbarth wrth baratoi a chyflwyno gwersi. Mae'r berthynas rhwng yr athrawon a'r disgyblion yn un sy'n annog parch a chwrteisi. Mae ethos cefnogol ac awyrgylch weithgar ym mhob dosbarth. Mae'r gefnogaeth i ddisgyblion sydd ag ADY yn dda.

Yn gyffredinol, mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn dda ac maent yn dechrau cael effaith ar hyder ac annibyniaeth y disgyblion, yn enwedig ym mlwyddyn 6. Mae'r disgyblion yn derbyn adborth llafar adeiladol yn rheolaidd mewn ymateb i'w gwaith. Fodd bynnag, mae enghreifftiau niferus o farcio arwynebol nad yw'n helpu'r disgyblion i ddeall sut i wella eu gwaith ysgrifenedig.

Mae sustemau effeithiol yn weithredol ar gyfer asesu gwaith a thracio cynnydd y disgyblion. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd cyson dda o'r wybodaeth a gesglir mewn ymgais i godi safonau. Nid yw'r broses o safoni asesiadau oddi mewn i'r ysgol wedi ei datblygu'n ddigonol i sicrhau bod lefelu gwaith y disgyblion yn gyson gywir.

Mae'r rhieni yn derbyn gwybodaeth dda am gynnydd eu plant. Mae'r adroddiadau i rieni yn cwrdd â'r gofynion statudol, ac yn darparu gwybodaeth glir.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y disgyblion o bwysigrwydd iechyd a chadw'n iach trwy roi sylw da i fwyta'n iach ac ymarfer corff. Mae'r ysgol wedi derbyn achrediad lefel 1 y 'Cynllun Ysgolion Iach'.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol y disgyblion yn rhagorol a'u datblygiad diwylliannol yn dda. Mae addoliadau ar y cyd yn rhagoriaeth yn yr ysgol.

Mae datblygiad Addysg Bersonol a Chymdeithasol y disgyblion yn dda. Yn ystod sesiynau amser cylch mae bron bob disgybl yn ymateb yn dda. Mae bron bob disgybl yn cymryd y cyfle i drafod ei deimladau a'i bryderon.

Mae perthynas agos yn bodoli rhwng yr ysgol a'i rhieni. Mae'r rhieni yn datgan bod eu plant yn hapus yn dod i'r ysgol ac mae llif y wybodaeth rhwng yr ysgol a'r cartref yn dda.

Mae presenoldeb y disgyblion yn dda, a thystia'r rhieni fod trefniadau effeithiol yn weithredol er mwyn rhannu gwybodaeth pan fydd absenoldeb.

Mae gan yr ysgol bolisi priodol ac mae ganddi weithdrefnau ar gyfer diogelu. Mae'r holl staff wedi cwblhau hyfforddiant priodol.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o wasanaethau, gwybodaeth ac arweiniad arbenigol.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer ymateb i ddisgyblion ag ADY y dda. Mae'r athrawon yn adnabod anghenion yn gynnar. Maent yn darparu Cynlluniau Addysg Unigol priodol sy'n derbyn sylw cyson gan yr holl staff. Maent yn monitro cynnydd pob disgybl yn erbyn y meini prawf gosodedig ac mae bron bob disgybl yn gwneud cynnydd da.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Un o brif gryfderau'r ysgol yw ei hawyrgylch hapus a'r sylw cynhwysfawr a roddir i hyrwyddo lles, cyfeillgarwch, goddefgarwch a chydraddoldeb.

Seilir y gynhaliaeth dda ar waith tîm holl staff yr ysgol, ar feithrin hunan - ddelwedd pob unigolyn ac ar adnabyddiaeth drylwyr o amgylchiadau a diddordebau personol y disgyblion.

Cefnogir y gwaith gan bolisïau manwl a chyfredol sy'n ymwneud â meysydd megis atal bwlio, herio stereoteipio, hiliaeth a homoffobia. Maent yn bodloni'r gofynion statudol.

Mae bron bob disgybl wedi ymdoddi'n llwyddiannus i fywyd yr ysgol a rhoddir sylw da i sicrhau cyfle cyfartal i bawb. Mae'r disgyblion yn troi'n hyderus at oedolion gan wybod bod yr ysgol yn ymateb yn gyflym i unrhyw bryderon.

Mae'r cynghorau dosbarth a'r Cyngor Ysgol yn cyfrannu'n effeithiol i fywyd yr ysgol ac yn gwneud awgrymiadau buddiol.

Saif yr ysgol mewn llecyn canolog i'w dalgylch. Ac eithrio trafferthion gyda'r to a'r draeniau mewn tywydd garw iawn, mae ffabrig yr adeilad yn gadarn.

Mae rhai o'r ystafelloedd dosbarth yn fach, yn arbennig ym mhen uchaf y Cyfnod Sylfaen. Rhaid cerdded trwy ystafelloedd dosbarth i fynd o'r naill ran o'r ysgol i'r llall mewn tywydd garw. Fodd bynnag, mae'r ysgol wedi gwneud pob ymdrech i oresgyn yr anawsterau hyn gan greu awyrgylch ysgogol a lliwgar.

Mae cyntedd croesawgar yn ffocws i ymwelwyr mewn adeilad gwasgarog ond mae hefyd nifer o fynedfeydd eraill i ddosbarthiadau unigol heb eu cloi. Mae hyn yn fater diogelwch sydd angen sylw ar fyrder.

Gyda chymorth grantiau a llafur cariad gwirfoddolwyr, mae gwaith yn mynd rhagddo i harddu gwahanol rannau o'r iard.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Digonol |
| --- | --- |

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol ac mae'n cyfleu'r weledigaeth honno'n llwyddiannus i'r staff, y llywodraethwyr a'r disgyblion. Mae hi'n adnabod yr ysgol yn dda iawn. Mae'n cynnig cyfeiriad strategol eglur sydd yn cael dylanwad cadarnhaol ar fywyd a gwaith yr ysgol.

Bu newid aelodaeth yn nhimau a chyfrifoldebau rheolwyr canol ac uwch reolwyr yr ysgol. Dal i ymgyfarwyddo â'u cyfrifoldebau mae'r staff a benodwyd yn ddiweddar, ynghyd â'r rhai y dyrannwyd dyletswyddau newydd iddynt. Er bod rheolaeth yr ysgol yn sicrhau cryfderau o safbwynt cynllunio ac asesu pynciau, nid yw'r strwythur newydd hon wedi gwreiddio'n ddigonol eto i godi safonau disgyblion i'w llawn botensial. Anaml mae'r UDRh yn cyfarfod yn ffurfiol, ac nid yw'r aelodau yn atebol am safonau yn y pynciau craidd yng nghyfnod allweddol 2.

Mae gan yr ysgol ystod eang o bolisïau rheolaethol a chwricwlaidd sydd ar y cyfan yn cael eu gweithredu'n effeithiol. Yn ddiweddar, ail-luniwyd disgrifiadau swyddi sy'n cynnig sylfaen glir ar gyfer y dyfodol.

Mae'r corff llywodraethol yn cyflawni ei gyfrifoldebau statudol yn effeithiol. Mae gan ei aelodau ymwybyddiaeth dda o berfformiad cyfredol yr ysgol ac maent yn herio a chwestiynu perfformiad yr ysgol yn gydwybodol. Mae'r llywodraethwyr yn ymweld â dosbarthiadau yn rheolaidd. Mae'r ymweliadau hyn yn fodd iddynt gynnig cefnogaeth lwyddiannus i'r ysgol wrth gynllunio'n strategol.

Llwydda'r ysgol i dalu sylw dyledus i nifer o flaenoriaethau cyfredol y sir a Llywodraeth Cymru ond, hyd yn hyn, anwastad yw eu gweithrediad a'u heffaith.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae'r broses hunan arfarnu yn adnabod yn glir y mwyafrif o'r meysydd i'w datblygu o fewn yr ysgol. Mae trefn o hunan arfarnu'r ysgol yn dechrau cynnwys trafodaethau staff yn ogystal â barn llywodraethwyr, rhieni a disgyblion, ond mae lle i'w datblygu ymhellach.

Oherwydd bod agweddau o reolaeth yr ysgol yn newydd, a bod y staff a benodwyd yn ddiweddar yn dal i ymgyfarwyddo â'u cyfrifoldebau, nid ydynt wedi cyfrannu'n llawn i'r broses o arfarnu safonau pynciol. Nid yw'r broses o hunan arfarnu wedi dylanwadu'n ddigonol ar safonau cyrhaeddiad disgwyliedig nac ychwaith wedi llwyddo i oresgyn y gwendid yn safonau mathemateg sy'n bodoli ers sawl blwyddyn.

Mae'r cysylltiad rhwng y drefn hunan arfarnu a'r Cynllun Datblygu Ysgol (CDY) yn dda.

Mae'r CDY yn fanwl ac wedi ei seilio'n gadarn ar arfarniad o'r cynllun blaenorol. Caiff ei adolygu'n dymhorol. Mae'r blaenoriaethau'n glir ac mae'r deilliannau disgwyliedig a'r effaith ar safonau wedi eu disgrifio'n fanwl. Bu'r llwyddiant, hyd yn hyn, yn amlwg mewn meysydd megis creu ethos da, gwella ymddygiad a sicrhau agwedd bositif y disgyblion tuag at waith.

Mae'r athrawon yn gweithio'n dda fel tîm. Yn fewnol, mae'r ysgol yn cynnal cyfarfodydd i gynllunio'r cwricwlwm ac i rannu arferion addysgu diweddaraf, megis dulliau hybu ymddygiad da.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol gysylltiadau gydag ystod eang o bartneriaid.

Mae partneriaeth dda rhwng yr ALl, y tîm ymgynghorol lleol a'r ysgol, sydd wedi cael dylanwad cadarnhaol ar ddulliau addysgu a dysgu.

Mae rhieni'r ysgol yn gefnogol iawn i'r holl weithgareddau a ddarperir. Mae'r rhieni ac ymwelwyr o'r gymuned yn gwneud cyfraniad sylweddol i gyfoethogi profiadau'r disgyblion. Mae'r disgyblion hwythau yn cymryd rhan mewn gweithgareddau o fewn y gymuned leol.

Mae'r ysgol yn cydweithio gydag ysgolion cynradd eraill o fewn ei chlwstwr er mwyn llunio cynlluniau gwaith, safoni gwaith disgyblion a rhannu arfer dda. Mae'r arfer wedi cael effaith gadarnhaol ar drefn asesu ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2.

Sefydlwyd gweithdrefnau pontio da wrth i'r disgyblion drosglwyddo i'r ysgol uwchradd.

Mae'r staff yn gweithio'n effeithiol gydag asiantaethau allanol ac mae'r cydweithio hwn yn eu galluogi i wella deilliannau a lles y disgyblion.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae arweinwyr a rheolwyr yr ysgol yn rheoli staff ac adnoddau'n effeithiol. Mewn cyfnod o doriadau cyllidol, llwyddwyd i warchod pob agwedd o'r cwricwlwm, lleihau niferoedd y disgyblion ym mhob dosbarth a symud o sefyllfa o ddyled ariannol i sefyllfa o fod â swm bach wrth gefn. Maent wedi sicrhau bod athro ar gyfer pob blwyddyn ysgol.

Mae Panel Cyllid y Corff Llywodraethol yn monitro'r gyllideb yn ofalus gan adrodd i'r corff llawn yn gyson.

Gwneir defnydd effeithiol o sgiliau'r staff drwy gyfnewid dosbarthiadau ar gyfer pedwar o bynciau. Sefydlwyd rhaglen drylwyr o ddatblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer staff, seiliedig ar anghenion cyfredol yr ysgol. Bu'r ysgol yn flaengar yn y gwaith o uwch-sgilio cymorthyddion y dalgylch. Gwneir defnydd priodol o amser cynllunio, paratoi ac asesu yr athrawon, gan ddefnyddio prosesau sy'n cydymffurfio â'r gofynion statudol. Gwneir defnydd effeithiol iawn o'r staff cynorthwyol a'r staff ategol wrth iddynt weithio tuag at nodau ysgol cytûn.

Mae'r ysgol yn dadansoddi ei chryfderau a'i gwendidau o ran adnoddau yn ofalus. Mae amrediad, ansawdd a threfn yr adnoddau yn y dosbarthiadau Meithrin, Derbyn a blwyddyn un yn rhagorol ond mae'r defnydd ohonynt yn ddigonol yn blwyddyn dau. Mae'r adnoddau yng nghyfnod allweddol 2 yn dda.

Er bod yr ysgol wedi sicrhau gwelliannau i'r adeiladau, nid yw'r llywodraethwyr a'r UDRh wedi sicrhau ymateb llawn i rai materion diogelwch ar y safle.

Mae'r ysgol yn rhoi gwerth am arian.

## Atodiad 1

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i rieni

Cwblhaodd 91 o rieni yr holiadur er nad atebodd pob un ohonynt bob cwestiwn. Mae'r holl rieni yn fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. Dywedant bod eu plant yn hoffi'r ysgol a'u bod yn ddiogel yno. Dywedant oll hefyd bod y disgyblion yn ymddwyn yn dda. Dywed bron bob un bod yr ysgol yn trin pob plentyn yn deg a chyda parch a'u bod yn cael gwybodaeth gyson am gynnydd eu plant. Dywed bron bob un o'r rhieni hefyd bod eu plant yn cael cymorth ychwanegol priodol a bod yr ysgol yn annog eu plant i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. Mae bron bob un yn credu bod gan yr ysgol amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. Dywed bron bob un o'r rhieni eu bod yn teimlo'n hapus i ofyn cwestiwn i'r ysgol, i wneud awgrymiadau neu i nodi problem. Maent yn deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. Nid yw lleiafrif o'r rhieni wedi ateb y cwestiwn ynglŷn â llwyddiant yr ysgol i baratoi eu plant yn dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf, ond mae'r rhan fwyaf sydd wedi ateb yn credu ei bod hi'n gwneud hynny. Mae bron pob rhiant hefyd yn dweud bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.

### Ymateb i'r holiadur i ddysgwyr

Cwblhaodd 87 o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yr holiadur. Dywed bron bob un ohonynt eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol a bod yr ysgol yn delio yn dda gydag unrhyw fwlio. Maent i gyd yn gwybod pwy i siarad ag ef neu hi os ydynt yn poeni neu'n gofidio. Dywed bron bob un bod yr ysgol yn eu dysgu sut i aros yn iach a dywed pawb bod llawer o gyfleoedd yn yr ysgol iddynt gael ymarfer corff yn rheolaidd. Mae bron bob un yn dweud eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol. Mae pob un yn dweud bod yr athrawon a'r oedolion eraill yn eu helpu i ddysgu ac i wneud cynnydd. Dywed pob un hefyd eu bod yn gwybod beth i'w wneud a chyda phwy i siarad os ydynt yn gweld eu gwaith yn anodd. Dywed bron pob un bod ganddynt ddigon o lyfrau a chyfrifiaduron i wneud eu gwaith. Mae bron bob un hefyd yn dweud bod eu gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwella eu gwaith yn yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf, merched yn bennaf, yn dweud bod plant eraill yn ymddwyn yn dda, eu bod yn gallu gwneud eu gwaith a bod bron bob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio.

## Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Gareth Wyn Roberts | Arolygydd Cofnodol |
| Prydwen Elfed-Owens | Arolygydd Tîm |
| Richard John Roberts | Arolygydd Lleyg |
| Geraint Wyn Jones | Arolygydd Cymheiriaid |
| Meri Jones | Enwebai'r Ysgol |

**Contractwr:** Cwmni Cynnal
Uned Dechnoleg
Stryd y Bont
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7HL

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |